GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483 (LLANELWEDD I HAWY, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, rhwng Llanelwedd a Hawy, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro yr holl draffig (modur a difodur) a da byw rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i Gefndyrys, Llanelwedd hyd at bwynt 50 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â Holly Lane, Hawy ger Llandrindod.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A483 tua'r de hyd at ei chyffordd â'r A470 yn Llanelwedd, yr A470 tua'r gogledd hyd at ei chyffordd â'r A4081 wrth bwynt i'r gogledd o'r Bontnewydd-ar-Wy a'r A4081 tua'r dwyrain i ailymuno â'r A483 yn Llandrindod: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Ni fydd y gwaith yn digwydd ar hyd a lled cyfan y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir uchod. Bydd yn cael ei gynllunio fel cyfres o gyfnodau cau ar rannau penodol a llai o'r ffordd o fewn y darn cyfan o'r gefnffordd a gwmpesir gan y Gorchymyn, a sicrheir cymaint o fynediad â phosibl ar gyfer preswylwyr a busnesau. Codir arwyddion ymlaen llaw ynghylch y gwaharddiadau cyn i bob cyfnod gwaith ddechrau.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Chwefror 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol yn ysbeidiol o 07:00 o'r gloch ar 1 Chwefror 2023 hyd 19:00 o'r gloch ar 17 Mawrth 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod mewn grym. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

THE A483 TRUNK ROAD (LLANELWEDD TO HOWEY, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A483 trunk road between Llanelwedd and Howey, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic (motorised and non-motorised) and livestock from proceeding on the length of the trunk road that extends from a point 300 metres north of the centre-point of its junction with the access road to Cefndyrys, Llanelwedd to a point 50 metres north of the centre-point of its junction with Holly Lane, Howey near Llandrindod Wells.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A483 to its junction with the A470 at Llanelwedd, northbound A470 to its junction with the A4081 at a point north of Newbridge-on-Wye and the eastbound A4081 to rejoin the A483 at Llandrindod Wells: vice versa for southbound vehicles.

The works will not occupy the full extent of the length of the trunk road described above. They will be planned as a series of closures on smaller, distinct road sections within the overall length of the trunk road covered by the Order and as much access as possible will be maintained for residents and businesses. Notice of the prohibitions will be signed in advance of all works.

The Order comes into force on 1 February 2023. The temporary prohibitions are expected to operate intermittently from 07:00 hours on 1 February 2023 until 19:00 hours on 17 March 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government